RHAGLEN

ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

GWANWYN 2023



Tocynnau 029 2039 1391

www.rwcmd.ac.uk

Rhaglen

Gwanwyn 2023

Royal Welsh College of Music & Drama

Tocynnau 029 2039 1391

www.rwcmd.ac.uk

Digwyddiadau am ddim…….7

Cwmni Richard Burton……..10

Opera……17

Cerddoriaeth……21

Cyngherddau Awr Ginio…….48

Conservatoire Iau…….55

Croeso

Mae'r gwanwyn yng ngholeg brenhinol cymru yn orlawn o seiniau ffres a ffrwydradau o straeon pwerus.

Rydym yn cyflwyno rhai o artistiaid gorau o bob rhan o'r byd sy'n dod â'u cerddoriaeth llawn ysbrydoliaeth i'n llwyfannau, o Shenyang, y bas-bariton gwych o Tsieina, i'r ddeuawd o Bersia Kayhan Kalhor ac Erdal Erzincan a'r pianydd syfrdanol o Ffrainc Lise de la Salle. Yn nes adref, bydd Cwmni Richard Burton yn adrodd straeon grymus am bŵer, perthynas, cyfiawnder a moesoldeb ac rydym yn cloi'r tymor gyda'n cynhyrchiad newydd o opera bwerus a hynod deimladwy gan Poulenc, Dialogues of the Carmelites.

Ewch i www.rwcmd.ac.uk/yourvisit i gael rhagor o wybodaeth am docynnau, sut i ddod o hyd i ni, archebion grwpiau ac ysgolion a mwy.

Neu gallwch anfon e-bost atom yn boxoffice@rwcmd.ac.uk.

Cofiwch hefyd bod ein Café Bar yn cynnig amrywiaeth eang o fwydydd, cacennau a diodydd, ac mae ar agor cyn y sioeau ac yn ystod yr egwylion.

Diolch i nawdd hael gan Unite Students, mae gan unrhyw fyfyriwr sy'n byw mewn llety Unite yng Nghaerdydd hawl i docyn am £3.

Chwiliwch am y symbol Unite i weld y digwyddiadau sy'n berthnasol. Cadwch lygad am y symbolau hyn Mae perfformiad â chapsiynau ar gael Mae perfformiad Iaith Arwyddion Prydain ar gael Mae disgrifiad sain ar gael ar gyfer y digwyddiad hwn Hynt Rydym yn rhan o gynllun cenedlaethol o'r enw Hynt sy'n rhoi'r arfer gorau oll i gwsmeriaid o ran polisi tocynnau teg a hygyrchedd.

Digwyddiadau am ddim

Amserjazztime

- 13 Ionawr –31 Mawrth Pob Nos Wener 5.30pm

Y Ffordd Ddelfrydol I Ddechrau Eich Penwythnos. Ymunwch Â Ni Ar Gyfer Ein Clwb Jazz Wythnosol Gyda'r Genhedlaeth Nesaf O Sêr.

Cyntedd Carne

Gwyliwch ar-lein Youtube.Com/Rwcmdtv

Cynllunio Ar Gyfer Drama Gyfoes

- 23 Ionawr–10 Chwefror 9am–5pm

Yn cynnwys Celf Golygfeydd, Cynigion Safle Benodol a Chynlluniau Stiwdio gan fyfyrwyr y cyrsiau BA2 Cynllunio, MA Cyfansoddi a Chyfarwyddwyr ac Awduron o Theatr Fio a Theatr Sherman.

Galeri Linbury

Cabaret yn y Coleg

- 25 Ionawr & 8 Mawrth 6pm

Ymunwch â ni yn y cyntedd i glywed

ffefrynnau o'r llwyfan theatr gerddorol gan ein perfformwyr dawnus.

Cyntedd Carne

Bar Sŵn

- 2 Chwefror & 23 Mawrth 6pm

Archwiliad o gerddoriaeth electronig yn bennaf gan fyfyrwyr a staff yr adran gyfansoddi.

Cyntedd Carne

Caffi Clasurol

- 24 Ionawr, 9, 13–15 & 22 Chwefror, 1, 27–30 Mawrth 6pm

Ymunwch Â'n Cerddorion Yn Y Caffi Clasurol, A Fydd Yn Cyflwyno Perfformiadau Ar Raddfa Fach Wrth I'r Haul Fachlud Dros Barc Bute.

Cyntedd Carne

Cwmni Richard Burton

Cwmni Richard Burton, Cenhedlaeth Nesaf Gwneuthurwyr Theatr Yn Cyflwyno Chwech Cynhyrchiad Newydd

£7.50– £15

Oed 14+

Byddwch yn barod am wledd i'r llygaid gyda phŵer, gwleidyddiaeth ac ysblander goruwchnaturiol Macbeth. Mae gwaith cignoeth a real Gary Owen, Love Steals Us From Loneliness, yn cloddio i gymhlethdodau perthynas ifanc, a drama ddoniol a theimladwy yw The Effect sy'n ymdrin â rhamant – yn yr ystyr clinigol!

Macbeth

- 9–13 Chwefror 7pm
- Capsiynau 11 Chwefror 7pm

Gan William Shakespeare

Cyfarwyddwr Jonathan Munby

Theatr Richard Burton

The Effect

- 11–15 Chwefror 7.15pm
- Matinee 14 Chwefror 2.30pm

Gan Lucy Prebble

Cyfarwyddwr Andrew Whyment

Theatr Bute

Love Steals us from Loneliness

- 10–15 Chwefror 7.30pm Matinees
- 11 & 13 Chwefror 3.30pm

Gan Gary Owen

Cyfarwyddwr Emma Baggott

Stiwdio Caird

Wedi'i wthio i'r ras i greu'r bom atomig, gwelwn Oppenheimer yn cwestiynu ei gyfrifoldeb moesol ei hun. Mae bywyd un wraig yn nwylo 12 aelod o reithgor llawn menywod yn The Welkin tra bod cyfreithwyr ifanc yn tyrchu drwy'r dystiolaeth yn Consent pwerus, doniol a heriol nina raine. A fydd cyfiawnder yn trechu?

The Welkin

- 29–31 Mawrth 7.30pm
- Matinee 31 Mawrth 2pm
- Capsiynau 30 Mawrth

Gan Lucy Kirkwood

Cyfarwyddwr Hannah Noone

Theatr Sherman

Oppenheimer

- 28–31 Mawrth 7.15pm
- Matinee 29 Mawrth 2.30pm

Gan Tom Morton-Smith

Cyfarwyddwr John Haidar

Theatre Bute

Consent

- 27–31 Mawrth 7pm
- Matinees 28 & 30 Marwrth 2.30pm

Gan Nina Raine

Cyfarwyddwr Diyan Zora

Stiwdio Caird

Stondin Actorion

- 18 Chwefror 7.30pm

Cyfle i weld dosbarth actio '23 yn arddangos eu doniau.

Theatr Richard Burton

£6–£12

Flora, the Red Menace

- 29–31 Mawrth 7.30pm
- Matinee 31 Mawrth 2.30pm

Mae Flora Meszaros newydd raddio ac yn barod i herio'r byd. Hi yw'r gorau yn ei dosbarth ac mae hi'n benderfynol o dorri cwys fel dylunydd ffasiwn. A hithau'n aelod o fenter gydweithredol o ddawnswyr, cerddorion a dylunwyr, mae'r fenyw ifanc eofn hon yn benderfynol o ddod o hyd i waith yn ystod Dirwasgiad Mawr y 1930au. Ond mae Efrog Newydd yn lle cymhleth, a phan mae hi'n syrthio mewn cariad â Harry Toukarian, dylunydd arall ag ymdeimlad cryf o gyfiawnder sy'n brwydro i ennill ei le, mae'n cael ei thynnu rhwng dwy ddelfryd wahanol iawn. Dyma sioe gerdd sy'n gosod agenda sosialaidd gyda dyngarwch, hiwmor, rhamant a set wych o alawon gan y tîm a ysgrifennodd y caneuon ar gyfer Cabaret a Chicago.

Gan George Abbott & Robert Russell

Cerddoriaeth & Geiriau John Kander & Fred Ebb

Cyfarwyddwr Georgie Rankcom

Cyfarwyddwr Cerdd Barnaby Southgate

Theatr Richard Burton

£7.50–£15

14+

Wearable Art

- 1 Mawrth 7.15pm 2 & 3 Mawrth 1pm, 4pm & 7.15pm

Mae ein sioe ffasiwn avantgarde yn dychwelyd y tro hwn gyda chymeriadau o fyd yr anifeiliaid sydd wedi'u creu o ddeunyddiau sgrap a deunyddiau wedi'u hailgylchu. Perfformiad unigryw o ddawns, golau a cherddoriaeth.

Theatr Bute

£6–£12

Opera

Dialogues of the Carmelites

- 25–29 Mawrth 7pm mae angau ar y trothwy.

Mae’r Chwyldro Ffrengig ar fin dechrau. Mae Blanche de la Force yn ceisio noddfa mewn lleiandy Carmelaidd i ddianc rhag yr hunllef. Mae eu ffydd yn cael ei phrofi wrth i arswyd Teyrnasiad Braw y Chwyldro ddechrau. Mae ail opera Poulenc, sy’n seiliedig ar stori wir Merthyron Compiègne, yn cael ei chyflwyno gan berfformwyr arbennig Ysgol Opera David Seligman.

Gan Francis Poulenc

Arweinydd James Southall

Cyfarwyddwr Rachael Hewer

Cenir Yn Saesneg

Theatr Sherman

£11–£22

12+

Darganfod Mwy: Dialogues of The Carmelites

Cawsom Air Gyda'n Cyfarwyddwr Cerddoriaeth, Tim Rhys-Evans, I Ddarganfod Mwy.

Sut fyddech chi'n disgrifio'r opera hon?

Mae Dialogues of the Carmelites yn stori afaelgar a thrasig, a adroddir yn hyfryd gyda harmonïau godidog a cherddoriaeth-drama bwerus y cyfansoddwr o Ffrainc, Francis Poulenc.

Beth sy'n arwyddocaol am yr opera?

Ysgrifennwyd Dialogue of the Carmelites ym 1956 ac mae'n dal i deimlo'n hynod fodern a hefyd yn berthnasol ac yn hygyrch i gynulleidfaoedd. Stori ydyw am y Lleianod Carmelaidd a

anfonwyd i'r gilotîn oherwydd eu ffydd ym 1794 yn ystod 'Teyrnasiad Braw' yn nyddiau olaf y Chwyldro Ffrengig.

Sut gerddoriaeth sydd ynddi?

Mae'r gerddoriaeth yn doreithiog gydag alawon hyfryd a gwead harmonig cyfoethog. Mae'r grym cerddorfaol a lleisiol yn swmpus felly byddwch yn barod am noson epig o greu cerddoriaeth. Mae'r sgôr gerddorfaol yn teimlo'n ffilmaidd i mi, gyda chyfeiriad at gerddoriaeth litwrgaidd Gatholig yn y llinellau lleisiol. Mae'r olygfa olaf yn bwerus ac ingol!

Beth all cynulleidfaoedd ei ddisgwyl?

Mae'r opera'n cynnwys cast mawr a chorws yn ogystal â cherddorfa 60 offeryn. Daw'r grymoedd hyn ynghyd ar y llwyfan felly bydd yn brofiad theatrig gwefreiddiol. Yr arweinydd fydd James Southall, arweinydd opera hynod brofiadol a Chyfarwyddwr Cerdd Dros Dro Ysgol Opera David Seligman. Byddwn hefyd yn croesawu, Rachael Hewer (enillydd y South Bank Sky Arts a Gwobr Opera y Gymdeithas Ffilharmonig

Frenhinol) am y tro cyntaf fel cyfarwyddwr. Mae'r noson yn argoeli i fod yn wledd i'r glust a'r llygad.

Pam ydych chi'n meddwl y dylai pobl ddod i wylio hon?

Os ydych chi'n hoffi stori afaelgar, cerddoriaeth hyfryd a drama llawn cyffro, yna mae Dialogues of the Carmelites i'r dim ar eich cyfer chi... a byddai'n syniad da dod â rhywbeth i sychu ambell ddeigryn!!

Cerddoriaeth

WNO Dychwelyd I Fienna

- 13 Ionawr 7.30pm

Mewn rhaglen sy'n dathlu'r gorau o gerddoriaeth Fiennaidd, mwynhewch yr enwog Blue Danube gan Strauss II, y Radetzky March bywiog gan Strauss I, yr hiraethus Straussiana Polka gan Korngold, a mwy. O dan gyfarwyddyd y Blaenwr a'r Cyngerddfeistr David Adams a chwmni Artist Cyswllt diweddaraf WNO, mae'r cyngerdd egnïol a thwym-galon yma'n siwr o'ch cael yn dawnsio i mewn i'r flwyddyn newydd mewn steil.

Neuadd Dora Stoutzker

£5–£18.50

Freight Train

- 13 Ionawr 7.45pm

Mae prif leisydd y band Gwyddelig traddodiadol Dervish, Cathy Jordan, wedi ymuno â dau o sêr jazz mwyaf poblogaidd y DU, Liam Noble a Paul Clarvis, i greu sain mawr newydd. O gael amser i fyfyrio yn ystod y cyfnod clo, daeth y triawd unigryw a chyffrous hwn i'r amlwg… lle mae gwerin Gwyddelig yn cwrdd â jazz a'r felan (arddull Mose Allison).

Theatr Richard Burton

£7–£14

Kayhan Kalhor & Erdal Erzincan

- 19 Ionawr 7.30pm

Caiff Kayhan Kalhor, enillydd Gwobr Grammy a enillydd Gwobr Artist Womex ei ystyried yn feistr byd-eang ar y kamancheh

(feiolin Persiaidd). Mae ei ddeuawd gyda'r chwaraewr baglama (liwt Twrcaidd) o fri, Erdal Erzincan, yn un o'r partneriaethau cerddorol mwyaf cyffrous ac unigryw. Mae llawer yn gyffredin rhwng traddodiadau cerddoriaeth glasurol Persia a Thwrci Otomanaidd sy'n ysbrydoli cerddoriaeth Kalhor ac Erzincan ac mae gan y syniad o fyrfyfyrio ran bendant yn eu perfformiadau hynod ysbrydol ac emosiynol.

Neuadd Dora Stoutzker

£9–£18

Llyr Williams & Chyfeillion: Brahms

- 26 Ionawr 7.30pm

Yn hwyr yn ei fywyd syrthiodd Johannes Brahms mewn cariad â sain y clarinét - gan roi ei lais melys, llawn mynegiant wrth

galon peth o'i gerddoriaeth fwyaf swynol (a phersonol). Yn dilyn ei archwiliadau clodwiw o waith Chopin a Schubert, mae'r pianydd penigamp ac artist cyswllt CBCDC Llŷr Williams bellach yn troi at fath gwahanol iawn o farddoniaeth, sef gwaith Brahms - gan alw ar gymorth dau gyfaill cerddorol i'w helpu i adrodd y stori, Maximiliano Martin ar y clarinét a Tim Hugh ar y soddgrwth.

Brahms

Sonata ar gyfer y Clarinét Rhif 1 6 Darn Op.118

Sonata ar gyfer y Clarinét Rhif 2 Triawd Clarinét

Neuadd Dora Stoutzker

£11–£24

Four Corners Byron Wallen

- 27 Ionawr 7.30pm

Mae’r trwmpedwr a’r cyfansoddwr Byron Wallen, sy’n cael ei gydnabod yn eang fel ffigwr arloesol ym myd jazz, wedi teithio’r byd. Mae ei albwm Portrait: Reflections on Belonging yn archwilio materion o dras, taith ddiasporig a gwreiddiau diwylliannol a chaiff ei gerddoriaeth ei hysbrydoli gan ddiwylliannau cyfoes a chynhenid, cerddoriaeth gynnar y Dadeni ac arddulliau Miles Davis, Wayne Shorter a Thelonius Monk.

Byron Wallen trwmped a chregyn

Rob Luft Gitâr

Paul Michael Bas

Rod Youngs Drymiau

Neuadd Dora Stoutzker

£8–£16

Manchester Collective: Alice Zawadzki's Bag of Bones

- 3 Chwefror 7.30pm

Cymerwch binsiad o gylch caneuon rhamantus, cymysgwch ychydig o theatr stiwdio a mymryn o jazz gydag ef, yna hidlo'r cyfan drwy sach hesian o lên gwerin dwfn, tywyll Canol Ewrop. Mae prosiect newydd hudolus Alice Zawadzki ar gyfer Manchester Collective wedi creu darn hynod bersonol o theatr gerdd. Dyma gerddoriaeth newydd ar ei mwyaf gwefreiddiol, peryglus a chathartig.

Neuadd Dora Stoutzker

£8–£16

Cyfres Piano Rhyngwladol Steinway: Steven Osborne

- 12 Chwefror 11am

'Roedd fel petai bod pob nodyn yn dirgrynu â deallusrwydd' meddai'r Daily Telegraph am y pianydd Steven Osborne o Brydain, ac mae hynny'n wir: daw Osborne â dawn ddiderfyn a mewnwelediad cerddorol awdurdodol i bopeth y mae'n ei gyffwrdd. O Beethoven ar ei fwyaf agos i anterth Sonata Cyntaf anferthol Rachmaninov, bydd y datganiad yn ei ddangos yn cyfathrebu ar ei orau.

Beethoven Bagatelle Op.33 Rhif 4 Yn A Schubert Sonata Piano Rhif 20 Yn A, D959 Rachmaninov Detholiad O Breliwdiau Ac Etudes Tableaux Rachmaninov Sonata Rhif 2 Yn B Fflat Leiaf Op.36

Neuadd Dora Stoutzker

£10–£22

Grymoedd Natur

- 8 Chwefror 7.30pm

Cerddorfa Symffoni Coleg Brenhinol Cymru

Cymru, y Ffindir, a Seland Newydd; tair gwlad fach, gyda lleisiau mawr a glywir ledled y byd wedi'u personoli drwy gerddoriaeth. Mae Cerddorfa Symffoni Coleg Brenhinol Cymru yn cyflwyno cerddoriaeth o dri chyfansoddwr sy'n portreadu natur, undod a chryfder cyfunol.

Douglas Lilburn Agorawd Aotearoa

Grace Williams Penillion

Sibelius Symffoni Rhif 2

Neuadd Dewi Sant

£7.50–£15

Abel Selaocoe & Sinfonia Cymru

- 16 Chwefror 7.30pm

Perffaith. Pwerus. Chwalu'r ffiniau. Trydanol. Rhai o'r geiriau a ddefnyddir mewn adolygiadau am berfformiadau seren y soddgrwth, Abel Selaocoe o Dde Affrica. Mewn cydweithrediad newydd gyda cherddorion dawnus y llinynnau a'r offerynnau taro yn Sinfonia Cymru, gallwch ddisgwyl cyfuniad egnïol o gerddoriaeth wreiddiol Affricanaidd gan Abel, y 'Cello Concerto' gan Tabakova a cherddoriaeth fyrfyfyr gyffrous gan driawd Abel – Chesaba – a mwy!

Neuadd Dora Stoutzker

£3–£18

Dixit Dominus Handel

- 19 Chwefror 2.30pm

Royal Welsh College Badinerie Consort & Genesis Sixteen

Mae offerynwyr hanesyddol y Coleg wrth eu bodd i fod yn cydweithio â rhaglen hyfforddiant arloesol The Sixteen ar gyfer cantorion corawl ifanc, Genesis Sixteen. Bydd y cyngerdd

hefyd yn cynnwys perfformiadau unigol gan unawdwyr lleisiol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Arweinydd Harry Christophers

Neuadd Dora Stoutzker

Am ddim gyda tocyn

Band Y Gwarchodlu Cymreig

- 22 Chwefror 7.30pm

Ffurfiwyd Band y Gwarchodlu Cymreig ym 1915 ac mae ganddo gysylltiad cryf â CBCDC, gan ddewis nodi canmlwyddiant y Gatrawd yn 2015 yn y Coleg. Bydd ein hofferynwyr yn ymuno â'r band mewn rhaglen syfrdanol o gerddoriaeth Gymreig ar gyfer y Gerddorfa Chwyth gan gynnwys gweithiau gan Hilary Tann, John Mackey, Tom Davoren ac Alun Hoddinott.

Cyfarwyddwr Cerddoriaeth Major Lauren Petritz-Watts

Neuadd Dora Stoutzker

£8–£16

Rownd Derfynol Cystadleuaeth Concerto

- 20 Chwefror 6pm

Peidiwch â cholli ein cystadleuaeth flynyddol y mae disgwyl eiddgar amdani, lle bydd ein cystadleuwyr rhagorol sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn cystadlu am yr anrhydedd o ymddangos fel unawdydd gydag ensemble o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Neuadd Dora Stoutzker

£6–£12

Tim Garland & Jason Rebello: Duology

- 23 Chwefror 7.30pm

Mae’r sacsoffonydd gwobrwyedig Tim Garland wedi recordio a pherfformio gyda degau o gerddorion mawr y byd jazz gan gynnwys Chick Corea, Ronnie Scott, Ralph Towner, John Dankworth a Bill Bruford. Mae gwaith y pianydd meistrolgar Jason Rebello wedi croesi bydoedd jazz a cherddoriaeth roc ac mae wedi perfformio gydag artistiaid sy’n cynnwys Sting, Phil Collins, Peter Gabriel a Chaka Kahn. Mae Duology yn dathlu eu cyfeillgarwch hirsefydledig a’u hymchwil am ddyfnder cerddorol, hiwmor, melancoli a chyffro, drwy noson gartrefol o weithiau gwreiddiol a chlasuron oeso.

Neuadd Dora Stoutzker

£8–£16

Rownd Gynderfynol Gwobr Llais Stoutzker

- 27 Chwefror 6pm

Cyfrannodd Ian Stoutzker yn hael tuag at adeiladu neuadd gyngerdd y Coleg ac mae hefyd yn rhoi'r wobr flynyddol hon i’n

myfyriwr cerddoriaeth mwyaf rhagorol. Ar ôl coroni'r ffliwtydd Isabelle Harris yn enillydd Gwobr Offerynnol Stoutzker 2022, mae ein sylw'n troi at y cantorion. Ymunwch â ni i weld pwy fydd yn cyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth llais yn 2023.

Neuadd Dora Stoutzker

£6–£12

Dydd Gŵyl Dewi

- 1 Mawrth 7.30pm

Band Pres Coleg Brenhinol Cymru

Bydd Band Pres Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru dan arweiniad Dr Robert Childs yn dathlu Gŵyl Dewi gyda rhaglen o gerddoriaeth Geltaidd gyffrous gan gynnwys ffefrynnau fel Sosban Fach a Gwŷr Harlech yn ogystal â darnau sylweddol o waith Karl Jenkins, William Mathias a Peter Graham.

Arweinydd Dr Robert Childs

Neuadd Dora Stoutzker

£7.50–£15

Ant Law, Alex Hitchcock, Jasper Høiby & Sun-Mi Hong

- 2 Mawrth 7.30pm

Wedi'u canmol fel cyfansoddwyr yn ogystal ag offerynwyr, gan rannu sawl gwobr a saith albwm fel arweinwyr rhyngddynt, mae Hitchcock a Law wedi creu byd sain syfrdanol o fywiog ac aeddfed yn eu halbwm newydd Same Moon in the Same World. Bydd y drymiwr Sun-Mi Hong, sydd â'i arddull unigryw yn cyfuno grŵf dwfn â ffrwydradau o hwyliau, yn ymuno â'r pedwarawd ochr yn ochr â huodledd dawnus ac egni uchel y basydd Jasper Høiby.

Theatr Richard Burton

£7–£14

Penwythnos Big Bash: 3 – 4 Mawrth

- 3 Mawrth 1.15pm

'Siawns nad ef yw'r offerynnwr taro gorau a mwyaf beiddgar yn y byd': dyna sut y disgrifiodd un beirniad Colin Currie. Ond nid oes yn rhaid i chi dderbyn geiriau'r beirniad, oherwydd heddiw mae Currie yn cyfuno ei frand arbennig o drydan gydag asbri ifanc ensemble offerynnau taro Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, mewn clasuron modern gan Jolivet, Fujikura, Joe Pereira ac Edgard Varèse. Mae fel dos caffein o egni rhythmig bywiocaol.

Neuadd Dora Stoutzker

£7 (ymlaen llaw) / £8 (ar y dydd)

The Big Bash: Gweithdai

- 4 Mawrth 9.30–12.30pm

Ar gyfer pobl ifanc rhwng 7 a 18 oed, ymunwch â ni ar gyfer ein gweithdai Big Bash. Mae'r gweithdai wedi'u hanelu at y rheini sy'n dechrau dysgu chwarae'r drymiau hyd fyfyrwyr offerynnau taro gradd 8. Byddwch yn cael eich rhannu'n grwpiau a fydd yn cael eu harwain gan ein hathrawon offerynnau taro gwych. Archebwch eich lle yn music. workshops@rwcmd.ac.uk

Band Pres CBCDC

Am Ddim

The Big Bash: Samba I Bawb

- 4 Mawrth 1.15pm

Ydych chi erioed wedi cael yr awydd i fod yn offerynnwr taro? Wel gallai hyn fod yn fan cychwyn i chi! Dewch i gymryd rhan yn ein gweithdy samba. Does dim angen profiad blaenorol. Yn addas i bobl ifanc rhwng 7 a 18 oed Cwrdd yn Cyntedd Carne

Am Ddim

The Big Bash: Parti Taro

- 4 Mawrth 2pm

Cyngerdd mawreddog i gloi ein diwrnod Big Bash. Dewch i gael eich ysbrydoli gan offerynwyr taro gwych y Coleg.

Neuadd Dora Stoutzker

Am Ddim

Pedwarawd Xhosa Cole Yn Cyflwyno Rhythm-A-Ting

- 3 Mawrth 7.30pm

Mae cysylltiad dwfn a dilys Xhosa, enillydd cystadleuaeth cerddor jazz ifanc y flwyddyn y bbc yn 2018, â llinach cerddoriaeth jazz wedi helpu i'w sefydlu ymhlith doniau ifanc mwyaf cyffrous y wlad. Gyda'i bedwarawd newydd sbon mae'n archwilio cyfansoddiadau Thelonious Monk yn llawn hiwmor.

Neuadd Dora Stoutzker

£8–£16

Gwobr Beethoven Eric Hodges

- 6 Mawrth 2pm

Mae sonatas piano Beethoven yn gasgliad eang ac amrywiol o brofiad dynol, ac yn her dechnegol a cherddorol anferth i unrhyw bianydd. Bydd ein myfyrwyr yn cystadlu am Wobr Eric Hodges flynyddol a chwenychir yn fawr.

Galeri Weston

£6–£12

Diwrnod Rhyngwladol Y Merched

- 8 Mawrth 7.30pm

Cerddorfa Chwyth Coleg Brenhinol Cymru

Mae'r dathliad hwn o waith cyfansoddwyr sy'n fenywod yn cyfleu golygfeydd a synau'r ddinas a'r byd naturiol, yn ogystal ag ystyried breuder ein bodolaeth. Cyfuniad pwerus o weithiau gan gyfansoddwyr hanesyddol a'r presennol i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2023.

Arweinydd Robert Plane

Pamela Harrison Lento O Octetto Pastorale

Rhian Samuel On This Precious Earth

Judith Bingham Bright Spirit

Jennifer Higdon Road Stories

Neuadd Dora Stoutzker

£7–£14

Elégie: Rachmaninoff, A Heart in Exile

- 9 Mawrth 7.30pm

Lucy Parham & Henry Goodman

Gyda geiriau'n cael eu hadrodd gan yr actor o fri Olivier Henry Goodman, mae Elégie yn croniclo bywyd y cyfansoddwr a'r pianydd Sergei Rachmaninoff. Mae'r rhaglen yn cynnwys llawer o'i hoff weithiau ar gyfer unawd piano, gan gynnwys detholiad o Breliwdau, Etudes-Tableaux a Moments Musicaux, rhai o'i drawsgrifiadau ef ei hun a'r Elégie hiraethlon, yn ogystal â gweithiau gan Scriabin a Tchaikovsky. Y pianydd o fri rhyngwladol Lucy Parham yw crëwr y cyngherddau clodwiw Composer Portrait, 'un o'r digwyddiadau y mae'n rhaid ei weld yn y calendr cerddorol' yn ôl BBC Music Magazine.

Neuadd Dora Stoutzker

£11–£22

The Hermes Experiment

- 16 Mawrth 7.30pm

Ensemble cerddoriaeth newydd yw Hermes Experiment sy'n canolbwyntio ar greadigrwydd craidd ac yn diystyru'r llyfr rheolau. Mae pob cyngerdd yn antur o sain - pedwar cerddor ifanc hynod feistrolgar, 'llawn adloniant' The Scotsman sydd â'u bryd ar arloesedd - a heddiw byddant yn camu ar yr Eurostar, dychmygu dinas a chreu rhywbeth cwbl newydd. Y cyfan heb adael Caerdydd… Yn cynnwys cerddoriaeth gan Mira Callix, Stevie Wishart, a premiere byd gan gyfansoddwr Prydain Iranaidd Shiva Feshareki.

Sgwrs cyn y cyngerdd gyda Shiva Feshareki, 6.30pm

Neuadd Dora Stoutzker

£8–£16

Cyfres Piano Rhyngwladol Steinway: Lise De La Salle

- 19 Mawrth 11am

'Mae dawn Lise de la Salle yn un mewn miliwn' ysgrifennodd y cylchgrawn Gramophone, ac mae'r pianydd ysbrydoledig hwn o Ffrainc yr un mor hudolus yn chwarae gwaith Scriabin ag ydyw gyda cherddoriaeth Gershwin. Yn y cyngerdd llawn dychymyg hwn, mae'n ein gwibio drwy bedwar byd cerddorol tra gwahanol, gan ddechrau gyda cheinder Ravel yn Ffrainc a gorffen gyda swing yn America'r oes jazz. Pedwar cyngerdd am bris un!

Yn Cynnwys: Ravel Valses nobles et sentimentales

Bartók Romanian Folk Dances

Piazzolla Libertango

Art Tatum Tea For Two

Neuadd Dora Stoutzker

£10–£22

Gostyngiad o 20% archebwch docynnau ar gyfer 3 neu ragor o gyngherddau yn gyfres hon

Teyrnged I'r Cyfansoddwr David Harries

- 22 Mawrth 7.30pm

Perfformwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn talu teyrnged gerddorol i gyn aelod o staff y Coleg a chyfansoddwr uchel ei barch, David Harries. Gan gyflwyno detholiad o weithiau unawd a siambr, bydd y perfformwyr yn plethu naratif cerddorol i ddathlu'r hyn a fyddai wedi bod yn ben-blwydd 90 oed iddo.

Neuadd Dora Stoutzker

£6–£12

Gwobr John Ireland

- 24 Mawrth 7.15pm

Ym maes cerddoriaeth siambr a chân y gwnaeth John Ireland ei enw yn gyntaf fel cyfansoddwr, a dyma'r genres y bu fwyaf cartrefol ynddynt drwy gydol ei yrfa. Mae Gwobr John Ireland yn dychwelyd i'r Coleg am yr ail flwyddyn, gan roi'r cyfle i'n myfyrwyr llais ac ensemble berfformio cerddoriaeth y meistr cerddoriaeth siambr puraf hwn.

Neuadd Dora Stoutzker

£6–£12

Fly Me to the Moon

- 31 Mawrth 7.45pm

Band Mawr Coleg Brenhinol Cymru Teyrnged I Draddodiad Y Bandiau Mawr Americanaidd, Gyda Cherddoriaeth Yn Amrywio O Waith Count Basie A Duke Ellington I'r Ysgrifenwyr Cyfoes Gordon Goodwin A Maria Schneider. Bydd Y Canwr Elijah

Jeffery Yn Ymuno Â'r Band I Ail-Greu Cyngerdd Enwog Sands Casino Ym 1965, Basie Gyda Sinatra.

Wedi'i Gyfarwyddo Gan Ceri Rees, Mae'r Cyngerdd Hwn Yn Sicr O Wneud I Chi Symud Yn Eich Sedd. Arweinydd Ceri Rees

Neuadd Dora Stoutzker

£8–£16

Cerddorfa Symffoni Ignite

Neuadd Dora Stoutzker £8

Concerto Feiolin Mendelssohn

- 7 Ionawr 7.30pm

Bydd y feiolinydd penigamp Lucy Gould yn ymuno â Cherddorfa Symffoni Ignite ar gyfer Concerto Feiolin

Mendelssohn, premiere byd gan Jonathan Daglish a Phumed Symffoni Tchaikovsky.

Arweinydd Rhys Herbert

Lucy Gould Feiolin

Czech Landscapes

- 22 Ebril 7.30pm

Ymunwch â Cherddorfa Symffoni Ignite wrth iddi archwilio tirweddau gwlad Tsiec gyda cherddoriaeth gan Smetana, Janáček a Dvořák.

Arweinydd Rhys Herbert

Cantemus Choir: The Genius of Bach - The Motets

- 1 Ebril 5pm

Mae motetau Bach ymhlith llwyddiannau mwyaf polyffoni corawl Baróc. Cofnododd Friedrich Rochlitz, cerddolegydd a beirniad nodedig o Leipzig, ymateb Mozart i glywed Singet dem Herrn.

Neuadd Dora Stoutzker

£7–£18

Cardiff Bach Choir

- 29 Ebril 7pm

Cardiff Bach Choir & British Sinfonietta mewn cyngerdd sy'n cynnwys cerddoriaeth gan ddau feistr o'r cyfnod clasurol: Haydn a Mozart. Bydd y rhaglen yn cynnwys Offeren Nelson Haydn a chorysau adnabyddus Mozart ac fe'i harweinir gan Stephen Moore.

Neuadd Dora Stoutzker

£8–£17.50

Cyngherddau Awr Ginio: 1.15pm

Aaron Akugbo & Zeynep Ozsuca

Trwmped & Piano

- 13 Ionawr

Beamish Trinculo I’r Trwmped Yn C A'r Piano

Enescu Légende

Poulenc Métamorphoses

Florence Price Thumbnail Sketches Of A Day In The Life Of A Washerwoman (1. Morning), Sympathy, Resignation & Adoration (Trefn. Aaron Akugbo)

Karl Pliss Sonata I'r Trwmped A'r Piano

London Winds

- 20 Ionawr

Gyda'r clarinetydd enwog Michael Collins yn arwain, mae London Winds yn cynnwys pum perfformiwr meistrolgar sy’n caru’r hyn maen nhw’n ei wneud.

Mozart Quintet (Sonata i'r Feiolin, K454)

Ligetti Six Bagatelles

Gunther Schuller Suite Ar Gyfer Pumawd Offerynnau Chwyth

Medaglia Suite

Shenyang & Simon Lepper

- 25 Ionawr

I nodi'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, mae'r bas-bariton anhygoel, Shenyang, yn dathlu ar ffurf rhaglen o farddoniaeth Tsieineaidd sydd wedi'i gosod ar gerddoriaeth o oes y frenhinlin Tang.

Quatuor Agate

- 27 Ionawr

Yr ensemble ifanc o Ffrainc sydd wedi ennill sawl gwobr ac wedi ennill clod y beirniaid am eu perfformiadau 'dramatig, dadlennol'

Boccherini Pedwarawd Llinynnol yn G leiaf, Op.32 Rhif.5
Brahms Pedwarawd Llinynnol yn C leiaf, Op.51 Rhif.1

Offerynwyr Taro Yn Perfformio

- 10 Chwefror

Bydd offerynwyr taro Coleg Brenhinol Cymru yn perfformio gweithiau ar gyfer offerynnau taro traw a di-draw gan Phillip Glass, Steve Reich a Bach.

Manchester Collective A Unawdwyr Llinynnau Coleg Brenhinol Cymru

- 15 Chwefror

Michael Gordon Weather

Three Jonny Greenwood Proven Lands

James Macmillan Memento

Jörg Widmann 180 Beats Per Minute Tradd. Scottish Set (Trefn. Donald Grant)

Teyrnged I Ensemble Pres Philip Jones

- 16 Chwefror

Band Pres Symffonig Coleg Brenhinol Cymru

Handel The Arrival Of The Queen Of Sheba (Trefn. Paul Archibald)

Samuel Scheidt Battle Suite (Trefn. Elgar Howarth & Philip Jones)

William Byrd Earl Of Oxford's March (Trefn. Elgar Howarth)

Ray Premru Divertimento

Chris Hazel 3 Brass Cats

Scott Joplin Easy Winners (Trefn. John Iveson)

Pianyddion Mewn Perfformiad

- 17 Chwefror

Bydd chwaraewyr allweddellau'r Coleg yn camu i'r llwyfan er mwyn cyflwyno perfformiad o gerddoriaeth llawn ysbrydoliaeth ar ein piano cyngerdd Steinway o'r radd flaenaf.

Gwenllian Llyr (telyn)

- 24 Chwefror

H. Evans Dros Y Mynydd, Suo Gân & O'r Banna

B. Bartok An Evening In The Village

M. Emlyn Canghennau Clwm & Llannerch

R. V. Williams Fantasia On Greensleeves (Trefn. K. Thomas)

H. Renie Ballade Fantastique

Septura

- 10 Mawrth

Pres tanbaid Septura, yr ensemble saith darn llawn sêr a ddisgrifiwyd gan yr Observer fel 'anorchfygol'

Prokofiev Suite O 10 Darnau, Op. 12

Mussorsgky Pictures At An Exhibition

Y 20au Euraidd: Cerddoriaeth Kurt Weill

- 29 Mawrth

Chwyth Siambr Coleg Brenhinol Cymru & Lucy Gould (Feiolin)

Kurt Weill Little Threepenny Music (Detholiad)

Cyfarwyddwr Robert Plane

Conservatoire Iau

Datganiadau Cyntedd y Coleg Iau

- 21 Ionawr, 4 Chwefror 1.45pm

Dewch i fwynhau datganiad am ddim gan rai o'n myfyrwyr cwrs uwch dawnus yn lleoliad hardd Cyntedd Y Coleg.

Cyntedd Carne

Am Ddim

The Big Blast! Gweithdy Band Pres Gyda Dr Robert Child

- 25 Mawrth 12pm

Bydd Dr Robert Childs, sy'n arweinydd band pres rhyngwladol, yn arwain prynhawn llawn cyffro o greu cerddoriaeth wych,

gyda chyngerdd anffurfiol i orffen. Mae'r gweithdy'n agored i chwaraewyr pres o safon gradd 5 ac uwch.

Cofrestrwch ar gyfer y gweithdy hwn yn rwcmd.ac.uk/whatson

Cyrsiau Cerddoriaeth Arbenigol Ar Gyfer Plant A Phobl Ifanc

- 4-18 oed

Bob dydd Sadwrn yn ystod wythnosau'r tymor mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn gartref i'r Conservatoire Iau, sy'n darparu cyrsiau cerddoriaeth arbenigol i blant a phobl ifanc o Gymru a De Orllewin Lloegr.

Mae'r clyweliadau ar gyfer mynediad ym mis medi 2023 ar agor!

I gael rhagor o fanylion ewch i www.rwcmd.ac.uk/junior

Bwyta yn CBCDC

Chwilio am damaid i'w fwyta cyn gwylio perfformiad yn CBCDC? Beth am roi cynnig ar ein Bwydlen Danteithion Bach newydd, gyda dewis blasus o seigiau bychan:

- Byrgers Bach Cig Eidion Cymreig
- Byrgers Bach Sbigoglys a Chorbys
- Adenydd Cyw Iâr Poeth a Sbeislyd
- Calamari Halen a Phupur Crensiog
- Bara Fflat Margherita Artisan wedi'i bobi
- Sglodion Tenau

Ar gael llun-gwener rhwng 5-7pm

Prisiau rhwng £3.50-£9 hefyd...

Cadwch lygad am ein cyfuniad diod a byrbryd am £6 Ar gael cyn perfformiadau ac yn ystod yr egwylion ar nosweithiau cyngherddau hwyrol

Diolch

Hoffai'r coleg ddiolch i'r cyrff cyhoeddus, unigolion, ymddiriedolaethau, sefydliadau a noddwyr sy'n ein cefnogi.

www.rwcmd.ac.uk/ thankyou

Llywydd

The Former Prince Of Wales

Cadeirydd Llawryfog

The Lord Rowe-Beddoe DL

Cadeirydd

John Derrick

Is-Lywyddion
Philip Carne MBE FRWCMD

Rhodri Talfan Davies BA (Hons) Oxon

Sir Anthony Hopkins CBE FRWCMD

Professor Uzo Iwobi CBE

Dame Gwyneth Jones DBE FRWCMD

Captain Sir Norman Lloyd-Edwards KCVO FRWCMD

Menna Richards BA FRWCMD

Lady Anya Sainsbury CBE FRWCMD

Michael Sheen OBE FRWCMD

Sir Ian Stoutzker CBE FRWCMD

Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD

Edward Thomas FRWCMD

The David Seligman Opera School Circle of Presidents

Rebecca Evans FRWCMD

Sir Brian McMaster FRWCMD

Carlo Rizzi FRWCMD

David Pountney CBE FRWCMD

Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD

Mae’r Ysgol Opera David Seligman wedi ei chefnogi gan rodd David Seligman

Unigolion

Dame Shirley Bassey FRWCMD

The Biss Family

Philip Carne MBE FRWCMD and Christine Carne FRWCMD

Professor Indira Carr Hywel and Mary George

The family of the late Alan Good

The late Eira and Don Halley

Victoria Harris

Linda and Tony Hill

The late Leonard and Marian Jones

The late Elaine Hugh-Jones

The late Arthur Morris Jones

The late Barbara Knapton and Kathleen Cavill

Sean Mathias

The late Mrs McGrenery

Gregory Nasmyth and the Hon. Samantha Rowe-Beddoe

Robin and Sophia Neill

Richard Parry in memory of Marjorie Spencer

Alan Peterson OBE and Maggie Peterson

The late Gwenllian Phillips in memory of her husband

The late Phoebe Ida Phillips

Dr David Pollak Janet Price FRWCMD

The late Eileen Price

John Rath and John Underwood

The late Ron Redwood

Carlo Rizzi FRWCMD

The Lord Rowe-Beddoe DL and Lady Rowe-Beddoe

The late David Seligman OBE FRWCMD and the Philippa Seligman legacy The late Jacqueline Skarvellis

Sir Ian Stoutzker CBE FRWCMD

Sir Howard and Lady Jennifer Stringer

Peter and Janet Swinburn

The late Neil and Mary Webber

Catherine Zeta-Jones CBE FRWCMD

Cymorth Busnes

Hern & Crabtree

Hospital Innovations

John Lewis Partnership

Park Plaza

Steinway Western Power Distribution

Ymddiriedolaethau a sefydliadau

British Schools & Universities Foundation

The Darkley Trust

The D’Oyly Carte Charitable Trust

The Gareth Jones Trust

The Gaynor Cemlyn Jones Trust

Sir John Gielgud Charitable Trust

The Girdlers’ Company

The Helen Rachael Mackaness Charitable Trust

The Linbury Trust

The Nick Lewis Memorial Trust

The Simon Gibson Charitable Trust

The South Square Trust

The Starmer Jones Music Trust Fund

The Spielman Charitable Trust

The Talbot House Trust

The Thriplow Charitable Trust

The Universal Music UK Sound Foundation

The Waterloo Foundation

Cylch Y Cadeiryddion

Hugo and Elinor Blick

John Derrick and Preben Oeye

Richard Lloyd-Owen and Patricia Cabrera

Roger Munnings CBE and Karen Munnings

Lord Rowe-Beddoe DL and Lady Rowe-Beddoe
Peter Saunders OBE
Atlantic Property Development PLC (Babs Thomas)

The '49 Circle

Diolch i'r rhai sydd wedi cofio CBCDC yn eu hewyllys

Cyswllt

Diolch i'n haelodau Cyswllt a Cyswllt Cyfeillion, sydd wedi eu henwi ar ein gwefan, am eu cefnogaeth ffyddlon o'r Coleg a'i fyfyrwyr. Y tymor hwn, mae Cyswllt yn cefnogi Macbeth a berfformir gan ein Cwmni Richard Burton.

Hoffem hefyd ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at Gronfa Caledi Myfyrwyr a Chronfa Bwrsariaeth y Coleg, y rheini sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad ein rhaglen MA Opera 360 newydd a phawb sy'n rhoi gwobrau blynyddol.